

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1205
Ein cyf/Our ref JJ/11392/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

8 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Medi ynghylch y ddeiseb i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd ar gyfer Afon Tywi yng Nghaerfyrddin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo yn ei Rhaglen Lywodraethu i ddiogelu 45,000 o gartrefi ychwanegol dros oes y llywodraeth hon. I gefnogi hyn, gall ein Rhaglen Llifogydd ac Erydu Arfordirol ddarparu cyllid grant i'n Hawdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i gyflwyno achosion busnes ac ymyriadau i leihau perygl o'r fath i'n cymunedau.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cyflwyno cynllun llifogydd ar gyfer Afon Tywi fel yr Awdurdod Rheoli Risg perthnasol ar gyfer prif afonydd. Byddem yn disgwyl i unrhyw gynllun mawr hefyd gynnwys trafodaethau gyda'r awdurdod lleol a'r rhai a fydd yn elwa arno.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn nodi pa gymunedau y dylai ein Hawdurdodau Rheoli Risg hoelio eu sylw arnynt, ond maent yn disgwyl iddynt flaenoriaethu meysydd sy'n lleihau'r risg i gartrefi yn bennaf. Gall busnesau hefyd elwa lle mae cartrefi hefyd yn cael eu diogelu, neu lle gall yr Awdurdod Rheoli Risg gyfiawnhau cynllun sy'n amddiffyn busnesau yn unig.

Yna caiff yr holl gynlluniau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ariannol eu blaenoriaethu yn ôl risg, gan ddefnyddio gwybodaeth o Gofrestr Cymunedau mewn Perygl Cyfoeth Naturiol Cymru, digwyddiadau llifogydd hanesyddol, nifer a math yr eiddo sydd mewn perygl, costau a manteision ehangach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r dull hwn o reoli perygl lifogydd wedi'i nodi yn ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae hefyd yn cyd-fynd â'n Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a all ganiatáu datblygiad llai agored i niwed mewn ardaloedd lle mae mwy o berygl o lifogydd.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change